# Cenn@d

MEHEFIN 21 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 121


## Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru i Gaerdydd

Pleser o'r mwyaf yw cael croesawu Cyfarfodydd Blynyddol Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru i'r Tabernacl, Eglwys Bedyddwyr Cymraeg Caerdydd, ddydd Gwener a dydd Sadwrn, 23–4 Mehefin. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau'r byrddau a'r pwyllgorau, a'r argymhellion sydd yn deillio o'r adroddiadau, mae yna gyfarfodydd agored eraill.

Prynhawn Gwener am 3.45 o'r gloch, cynhelir cyfarfod diddorol dan y teitl 'Cyrri, Celf a Chanolfan Clyd' fydd yn disgrifio cenhadaeth eglwys yng nghanol dinas. Yr arweinydd fydd y Parchedig Ddr Rosa Hunt, gweinidog y Tabernacl. Dilynir hyn gan Oedfa'r Llywydd, pan sefydlir Bill Davies fel Llywydd UBC, am 7 o'r gloch.

Fore Sadwrn, am 10 o'r gloch, cynhelir Sesiwn Genhadol dan ofal y Parchedig Simeon Baker. Sut y gallwn ni helpu eraill i ddarganfod pwy yw Iesu? Sut y gallwn ni helpu os nad ydynt hyd yn oed yn gofyn y cwestiwn? Mae'n gyfle i glywed gan wahanol bobl ac ymweld â mannau lle mae cenhadaeth yn digwydd yng Nghymru heddiw.

Am 12 o'r gloch brynhawn Sadwrn, dan nawdd Cymdeithas Hanes Undeb Bedyddwyr Cymru, bydd y gynhadledd yn dathlu bywyd y diweddar Hugh a Verina Matthews, gyda chyfraniadau gan rai fydd yn cynrychioli pob cyfnod o'u gweinidogaeth.

Daw'r gynhadledd i ben gydag Oedfa'r Weinidogaeth am 2 o'r gloch brynhawn Sadwrn, ac fe bregethir gan y Parchedig Olaf Davies, cyn-weinidog y llywydd, yn Eglwys Penuel, Bangor.



## Beibl i bawb ...

Cyflwynwyd copi yr un o'r Beibl gan y Parchg Beti-Wyn James i ddisgyblion Blwyddyn 5 yn Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin, yn ddiweddar. Dyma gymwynas flynyddol gan grŵp cydenwadol GiG a chapeli ac eglwysi Cymraeg tref Caerfyrddin. Maent yn gwneud casgliad yn Oedfaon Gŵyl Ddewi Undebol y dref bob blwyddyn i ariannu'r Beiblau.




Ymweliad Ewyllys Da gan Eglwys Bresbyteraidd Mawkhar, Shillong, Bryniau Casia, 8–22 Mai 2023
Tudalen 2

Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion
Tudalen 3

O Gefn Gwlad
Y Cennad, nid y Genhadaeth
Tudalen 7

# Ymweliad Ewyllys Da gan Eglwys Bresbyteraidd Mawkhar, Shillong, Bryniau Casia, 8–22 Mai 2023



Daeth yr adroddiad hwn i law yn dilyn ymweliad ein cyfeillion o Shillong â Chymru yn ystod mis Mai; fe'i rhoddwn yma yn eu geiriau eu hunain.

Bu i gynllun gwyrthiol ein Tad Nefol i anfon y cenhadwr Cymreig y Parch. Thomas Jones a'i wraig, Mrs Anne Jones, i Fryniau Khasi a Jaintia yn 1841 arwain at ledaeniad Cristnogaeth yn ein talaith annwyl. Chwaraeodd Thomas Jones, ynghyd â llawer o genhadon eraill anhunanol a llawn o'r Ysbryd Glân, rôl sylfaenol yn nhwf eglwysi Presbyteraidd talaith Meghalaya. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i'n mam eglwys, Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC), am barhau i ddyfnhau a chyfoethogi'r cwlwm hwn rhwng EBC ac Eglwys Bresbyteraidd India (PCI) ar hyd y 182 mlynedd hyn.

Cafodd yr eglwys yr ydym ni'n aelodau ohoni ym Mawkhar, Shillong, ei sefydlu ym 1881 gan y Parch. Griffith Hughes. Sefydlwyd Cymdeithas Ganolradd yr Ymdrech Gristnogol (Intermediate Christian Endeavour Society) ar 30 Mehefin 1948 dan arweiniad Ms A. W. Thomas, cenhades o Gymru. Mae'r gymdeithas hon yn dathlu ei jiwbilî blatinwm, 75 mlynedd, ar hyn o bryd, ac fe gynlluniwyd yr Ymweliad Ewyllys Da â'r Fam Eglwys, EBC, fel rhan o'r dathliad hwn. Roedd yr Ymweliad Ewyllys Da hwn yn bosibl oherwydd caniatâd a bendith Eglwys Bresbyteraidd Mawkhar, ac mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, y Parch. Nan Powell-Davies.

Cychwynnodd tîm o bum aelod, yn cynnwys Mr Living Stone Nongrum, Mrs Wellorich Anderson Sohkhlet, Mrs Mercy Dora Lyngdoh, Mrs Sumarlin Bareh a Mrs Marionette Khongwir, o India i Gymru ar 8 Mai 2023, gan ddychwelyd bythefnos yn ddiweddarach, ar 22 Mai 2023. O dan arweiniad tîm effeithiol EBC, ymwelwyd â llawer o eglwysi Presbyteraidd a llefydd eraill o ddiddordeb inni, gan gynnwys Mancot, Llyfrgell Gladstone, yr Wyddgrug, Caer, Lerpwl, Aberriw, Maldwyn, y Bala, Bangor, Caernarfon, Llandudno, Aberystwyth, Caerdydd, ac Ealing yn Llundain.

Rydym yn diolch o galon i EBC am ein croesawu gyda chariad mawr, lletygarwch hael a chalonnau agored. Cawsom ein bendithio'n fawr gan y gwasanaethau a fynychwyd gennym yno. Arweiniwyd rhai ohonynt gan Gymdeithasfa'r Dwyrain, Rali Genhadol y Merched yn y Dwyrain ac yn y De, y Gwasanaeth Ieuenctid a Phlant yng Ngholeg y Bala, Eglwys Gloddaeth, Llandudno, a'r Gymanfa Ganu yn Ealing Green, Llundain. Fe'n llanwyd ag ymdeimlad dwfn o lawenydd a thangnefedd wrth inni ymuno yng ngwasanaethau'r eglwys a chlywed y lleisiau melodaidd yn canu mawl mewn addoliad i'n Harglwydd Dduw. Roedd undod a gwaith diflino aelodau'r eglwys wrth wasanaethu a bwydo'r gynulleidfa efo gwên ac ysbryd llawen yn gwneud i ninnau deimlo'n llawen a gostyngedig iawn.

Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i EBC am noddi ein taith mewn cludiant, bwyd a llety, ynghyd â'r holl drefnu a chynllunio a wnaed. Gwnaeth Duw wyrthiau yn yr Ymweliad Ewyllys Da hwn a chawsom ein cyffroi, ein hysbrydoli a'n bendithio'n helaeth. Allwn ni ddim enwi holl bobl Dduw y gwnaeth eu hymdrechion ymroddgar yr ymweliad hwn yn un cofiadwy iawn, ond bydded bendith Duw ar bob un ohonynt.

Mae'r ymweliad hwn hefyd wedi agor ein llygaid i'r modd y gallwn ninnau hefyd estyn allan a bod yn dystion i'r Arglwydd Iesu Grist i lawer o bobl y tu hwnt i'n hardal ein hunain, yn union fel y gwnaeth y cenhadon Cymreig i ni. Yn ystod ein hymweliad gwelsom lai o ymwneud gan y cenedlaethau iau â gweithgareddau'r eglwys. Gweddïwn y bydd yr Ymweliad Ewyllys Da hwn yn arwain at ryngweithio pellach rhwng ein dwy eglwys, yn enwedig ymhlith yr ieuenctid, gan ddyrchafu a chynnal ei gilydd gyda chariad, parch a llawer o urddas, fel y'n dysgir gan ein Harglwydd a'n Meistr Iesu Grist.

Boed i oleuni Duw barhau i ddisgleirio ar Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gan fod yn gymorth iddi fod yn halen a goleuni yn y byd a chan gyfoethogi'r byd hwnnw ar ei phererindod drwyddo.

I Dduw y bo'r gogoniant. Amen.

# Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion eleni yng Nghylch Llandeilo, a hynny er parch i'w Gweinidog, y Parch. Mary Davies, a oedd yn dod i ddiwedd tymor ei llywyddiaeth. Ymunodd aelodau'r ofalaeth a chyfeillion eraill mewn oedfa gymun yn Providence, Cwm-du, fore Sul, 14 Mai, ac yna ddeuddydd yn ddiweddarach i Ebeneser, Llandeilo, y daeth aelodau o eglwysi'r Gymanfa ynghyd ar gyfer y Cyfarfodydd Blynyddol. Gyda'r haul yn tywynnu a golygfeydd o ddyffryn Tywi ar eu gorau, cafwyd diwrnod llawn a bendithiol gyda'n gilydd.



Yn dilyn derbyn croeso'r chwiorydd a lluniaeth ysgafn, daeth yn amser i drafod materion y Gymanfa yn y gynhadledd, oedd o dan lywyddiaeth y Parch. Mary Davies. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau a chofiwyd am rai oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd anhwylder. Priodol hefyd oedd cofio am y rhai oedd wedi ein gadael yn ystod y flwyddyn, ac offrymwyd gweddi ar eu rhan gan y Parch. Heini Jones gan gyfeirio'n arbennig at golled fawr o fewn y Gymanfa ym marwolaeth y Parch. Wynn Vittle, un oedd yn frwd dros y gwaith ac yn fawr ei gyfraniad ar hyd y blynyddoedd – coffa da amdano.

Derbyniwyd nifer o wahanol adroddiadau, yn cynnwys Cartref Glyn Nest, a'r ddau goleg yng Nghaerdydd a Bangor yn ogystal â chyfarchion gan Fudiad y Chwiorydd a gan Lywydd yr Undeb, y Parch. D. Densil Morgan. Pleser hefyd oedd clywed dymuniad Natalie Morgan, Aberteifi, sydd â'i bryd ar fynd i'r Weinidogaeth, yn ogystal â derbyn y Parch. Eseias Grandis yn weinidog llawn o fewn y Gymanfa.

Wedi gorffen y trafod a derbyn yr adroddiadau, roedd yn amser ar gyfer yr Oedfa Bregeth. Y Parch. Judith Morris, Ysgrifennydd Undeb Bedyddwyr Cymru, oedd yng ngofal y rhannau arweiniol a gwahoddwyd y Parch. Irfon C. Roberts, Aberteifi, i bregethu, a chafwyd pregeth amserol a chofiadwy iawn ganddo, yn ôl ei arfer. Cafwyd canu gydag arddeliad yn ystod yr oedfaon, a diolch am wasanaeth Mrs Siân Evans a Mr Huw Thomas wrth yr organ.

Braf oedd medru cymdeithasu â'n gilydd yn y festri yn ystod y dydd a chwrdd â ffrindiau, hen a newydd. Cafwyd darpariaeth flasus wrth y byrddau a chyfle i sgwrsio'n hamddenol rhwng y cyfarfodydd.

Oedfa Genhadol oedd yn y prynhawn o dan ofal y Senana. Trosglwyddodd y Parch. Sian Elin Thomas, y Graig, y llywyddiaeth i Natalie Morgan, Bethania, Aberteifi, a chymerwyd rhan yn yr oedfa gan y chwiorydd Rosemary Morgan, Ann Willams, Ann Bowen Morgan ac Einir Jones. Gwahoddwyd Tabea Dilling, sy'n gweithio gyda'r BMS, i siarad a chafwyd enghreifftiau ganddi o waith cenhadol sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Daeth y cyfarfodydd i ben gydag Oedfa'r Llywydd yn cloi gweithgareddau'r dydd. Traddododd y Parch. Mary Davies ei hanerchiad o'r gadair a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Gwlithyn Jones, Amor, Llanfynydd, a Dawn Richards, Providence, Cwm-du. Cyfoethogwyd yr oedfa gan berfformiadau arbennig Ffion Haf o Lanfynydd o ddau emyn cyfarwydd, sef 'Rho im yr hedd' a 'Dros Gymru'n gwlad'.

Yn ystod yr oedfa trosglwyddwyd y llywyddiaeth i'r brawd Eurfyl Lewis, Calfaria, Login, ar ran Gweithgor Gorllewin Myrddin. Yn dilyn arwyddo Beibl y Gymanfa, y Parch. Rob Nicholls, sydd â chysylltiad teuluol â Chalfaria a Ramoth, Cwmfelin Mynach, a offrymodd Weddi'r Neilltuo. Derbyniodd Eurfyl y llywyddiaeth yn huawdl gan gyfeirio at gysylltiad ei dad, y diweddar Iwan Lewis, a fu'n bregethwr cynorthwyol cydnabyddedig gan y Gymanfa am flynyddoedd lawer. Yng Nghapel Penyparc y bydd y Cyfarfod Hanner Blynyddol ym mis Tachwedd, gan gofio'r cysylltiad teuluol â'r eglwys honno.

Cafwyd ychwanegiad hyfryd i'r oedfa wrth i Eurfyl rannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd â'r gynulleidfa, a dyddiad anfon y neges o fewn deuddydd i'r cyrddau. Cyd-ddigwyddiad hefyd oedd bod dau o aelodau'r ofalaeth yn Llandeilo yn bresennol ac yn perthyn i'r Parch. Gwilym Davies, Cwm Rhymni, a drefnodd y neges gyntaf i'w hanfon ym 1922. Derbyniwyd croeso cynnes gan aelodau ardal Llandeilo, ac edrychwn ymlaen at ymweld â bro'r Cardi Bach wrth gynnal y Cyrddau Blynyddol yng Nghalfaria, Login, fis Mai y flwyddyn nesaf.




# Y Weinidogaeth Iacháu yn 70 oed – yr Ysgol Haf





Yn ystod ein hamser yng Nghefn Lea eleni buom yn dathlu pen-blwydd y Weinidogaeth Iacháu yn 70 oed. Daeth Dr Peter Ashton, un o ffyddloniaid yr Ysgol Haf ers blynyddoedd lawer, atom i dorri'r gacen. Nid oedd wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar, a braf oedd ei weld yno. Roedd yno arddangosfa wedi ei gosod – o luniau, ambell albwm, a thoriadau papur newydd. Clywsom am ei dechreuad 70 mlynedd yn ôl a'r rhai oedd wedi ei sefydlu, sef y Parchedigion Meirion Roberts, W. Bryn Roberts a Glyn Williams, a hefyd atgofion rhai eraill oedd wedi bod ynglŷn â hi.

Roedd hi'n Ysgol Haf arbennig eleni – y tywydd yn braf, y chwerthin, y cyfeillgarwch a'r gymdeithas yn gynnes, ac yn wir teimlwyd bod ysbryd yn symud yn ein plith. Roedd y canu mawl, dan arweiniad Arfon Jones, yn ein hysgogi, a'r gweddïau a offrymwyd rhwng yr emynau'n dod o'r galon.

Mewn grwpiau bach buom yn astudio'r Gair gyda'n gilydd, yn trafod yr hyn roeddem wedi ei deimlo yn ystod yr amser yno, a'r cylchoedd gweddi, oedd yn cyflwyno pobl i Dduw wrth eu henwau. Cafwyd rhyw agosatrwydd, dealltwriaeth a thipyn o hwyl mewn ambell grŵp weithiau hefyd. Teimlwyd bod pawb yn gallu bod yn agored ac yn gallu rhannu ambell brofiad.

Ein darlith gyntaf oedd 'Amser a Thragwyddoldeb' gan y Parch. Diane Stirling Jones. Bu'n trafod amser, ei bwrpas a'r ffordd y mae'n newid wrth inni dyfu i fyny, a bod ein bywyd wedi ei drefnu gan amser. Nid yw Duw wedi ei gyfyngu i amser, ac mae wedi creu byd a gofod mor eang fel na allwn ei ddirnad.

Y Parch. Rosa Hunt oedd ein darlithydd gwadd, a chawsom ddwy ddarlith ganddi. Yn 'My healing story' soniodd sut y bu'r Ysbryd Glân yn gweithio yn ei bywyd hi a sut y gwnaeth Duw ei chyffwrdd a'i galw i'r weinidogaeth. Yn ei hail ddarlith bu'n trafod 'Beth yw iechyd?' Cyfeiriodd at natur iechyd, pwrpas iechyd, a safon iechyd. Roedd y gair 'Shalom' yn dod i mewn yn aml, a'r ffaith ein bod yn dibynnu ar Dduw. Cawsom ein rhannu'n grwpiau bach i drafod beth yw iechyd, a chael teimladau gwahanol.

Gwen Wildman arweiniodd y Gwasanaeth Bendithio, a chreodd awyrgylch arbennig i'n harwain i'r arddodiad dwylo.

Croesawyd y Parch. Aneurin Owen, darpar Lywydd y Gymanfa Gyffredinol, i'n harwain at fwrdd y Cymun, a chafwyd myfyrdod ganddo ar dri gafodd eu hiacháu gan Iesu, sef Mair Magdalen, Thomas a Pedr, er mwyn iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân.

Diolch i bawb am y trefnu taclus a gofalus, yn enwedig Nerys Rowlands, yr ysgrifenyddes brysur; y Parch. Mary Turnock, y Llywydd; y Parch. Ifan Roberts, y trysorydd, a'r ddwy gyfeilyddes, Nesta Davies a Sarah Roberts.

Ysgol Haf gafodd argraff arnaf, a phopeth yn toddi i mewn i'w gilydd rywsut, gan ddod â ni yn agosach at Dduw a'n Gwaredwr, Iesu Grist. Diolch am gael bod yno.

*Olwen Williams*

# Pererindod Gofalaeth Colwyn

Bu rhai o aelodau Gofalaeth Colwyn, dan arweiniad y Parch. Helen Wyn Jones, ar bererindod ddechrau mis Mehefin. Wedi gwasanaeth ar y thema 'Pererin' yng nghapel Pensarn, Cyffordd Llandudno, cafwyd cinio Sul yn Nhal-y-cafn. Ymlaen wedyn i eglwys hynafol Caer-hun, yna Eglwys Martin Sant a Chapel Ebeneser, Eglwys-bach. Terfyn y daith oedd aelwyd ein gweinidog, lle cawsom groeso y byddai pob pererin yn falch ohono. Diolch o galon i Helen am drefnu pererindod mor fendithiol a chofiadwy inni.

*M. Iona Williams*



# Gwylnos Heddwch yn cael ei chynnal bob mis i ddangos cefnogaeth i bobl Palestina

Mae nifer o gefnogwyr Cymorth Cristnogol yn paratoi i gynnal eu 30ain gwylnos fel rhan o'r mudiad heddwch ym Mhalestina.

Mae Cymorth Cristnogol yn sefyll yn gadarn gyda pobl ym Mhalestina ac Israel sy'n galw am heddwch cyfiawn.

Mae'r gwylnosau'n rhan o fenter gan fforwm Palestina o Gynghrair ACT, grŵp o fwy na 145 o eglwysi a mudiadau ledled y byd; mae Cymorth Cristnogol yn aelod o'r gynghrair hon.

Mae ACT Palestina yn annog grwpiau i gynnal gwylnos weddi am 8yh ar y 24ain o bob mis hyd nes y bydd Israel yn ildio Tiroedd y Meddiant, y trais yn y Dwyrain Canol yn dod i ben, ac y gall pawb ddathlu datrysiad cyfiawn a pharhaol yn y rhanbarth.

Mae Gwylnos Heddwch Cymorth Cristnogol Cymru wedi bod yn digwydd ers mis Ionawr 2021.

Eglurodd Llinos Roberts, Swyddog Ymgysylltu a Chodi Arian Cymorth Cristnogol, y bydd y 30ain gwylnos yn cael ei chynnal ar 24 Mehefin.

"Rydym yn cyfarfod dros Zoom am hanner awr ac yn gwmni o oddeutu 20 bob mis," meddai. "Fase'r gwylnosau hyn ddim wedi bod yn bosib heb yr arweinwyr gwych sydd gennym o fewn y grŵp a'n siaradwyr gwadd, yn ogystal â'n cefnogwyr selog.

"Mae sawl un o'r grŵp wedi ymweld â'r rhanbarth gyda'r Rhaglen Gysylltu Ecwmenaidd ym Mhalestina ac Israel (EAPPI), ac mae ein cyfranwyr hefyd yn ymwneud â Chymdeithas y Cymod yng Nghymru, Cofleidio'r Dwyrain Canol (*Embrace the Middle East*) ac Amnest Rhyngwladol.

"Mae ein gwylnosau wedi cymryd sawl ffurf dros y misoedd – rhai'n dawel gyda chanhwyllau, eraill yn rhoi'r diweddaraf gan bartneriaid a staff Cymorth Cristnogol, adolygiadau llyfrau, a phrofiadau byw yn dilyn ymweliadau i Gaza ac i Israel a Thiroedd y Meddiant.

"Yn ogystal â'n cyfarfodydd misol, bu ein haelodau'n gweddïo yn eu hardaloedd lleol ar 24 Chwefror dros y sefyllfa yn Wcráin, ac fe fyddwn yn cynnal Gwylnos Heddwch yn yr Eisteddfod Gendlaethol ym mis Awst.

"O ran y dyfodol fel grŵp, rydyn ni'n edrych am ffyrdd i allu cydweithio i gefnogi partneriaid Cymorth Cristnogol yn y rhanbarth. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, fe fyddwn yn croesawu *Embrace the Middle East* ac Amnest Rhyngwladol i'n huned am ddiwrnod yr un, ac fe fyddwn yn cynnal gwylnos gyda'r hwyr ar y nos Lun."

Am fwy o wybodaeth ynghylch sut i ymuno â Gwylnos Heddwch, cysylltwch â: lroberts@christian-aid.org

# Cymanfa Bregethu Gydenwadol Rhoshirwaun

Yn 1923 y cynhaliwyd y Gymanfa Bregethu Gydenwadol gyntaf yn Rhoshirwaun, Llŷn. Caiff enwau tri o frodyr da'r ardal eu cysylltu â'r cychwyniadau, sef Thomas Hughes, Tŷ Canol, amaethwr a blaenor ffyddlon yng nghapel Pisgah (EF); Griffith Jones, Efail Rhos, gof, diacon ac arweinydd y gân yng nghapel Bethesda (B); ac Ellis Roberts, Bryn Meina, amaethwr a blaenor ffyddlon gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mhenycaerau. Dywed rhai mai ymgom rhwng Ellis Roberts a Thomas Hughes ar ddiwrnod dyrnu yn Nhŷ Canol a ddechreuodd y drafodaeth. Dywed eraill mai Griffith Jones, y gof, a wnaeth yr awgrym cyntaf. Ond pa wahaniaeth? Cytunir mai i'r tri hyn y mae'r clod am y syniad o gynnal Cymanfa Bregethu Gydenwadol.

Rhaid cofio mai adeiladu'r neuadd oedd y symbyliad cyntaf. Heb adeilad, ofer breuddwydio am gymanfa, a bu'r neuadd yn gartref i'r gymanfa dros y blynyddoedd. Byddai pregethwyr yn cynrychioli'r pum enwad yn cymryd rhan yn y gymanfa dros ddau ddiwrnod ganol Awst, ar bnawn a nos Fercher, a bore, pnawn a nos Iau. Gyda dau bregethwr ymhob oedfa, caed deg pregeth dros ddau ddiwrnod!

Gyda'r gynulleidfa yn heneiddio ac yn teneuo, bu'r pwyllgor yn trafod a phendroni ynghylch y ffordd ymlaen a sut i achub y gymanfa. Gofynnwyd am sylwadau'r ffydlloniaid. Roedd y mwyafrif llethol am newid y drefn (er nad oedd y pwyllgor yn unfrydol) a'r drefn wahanol yn dal o hyd. Rhoddodd y COFID orfodaeth arnom i ohirio'r oedfaon yn 2020/21 a 2022, felly collwyd ei phen-blwydd yn gant oed y llynedd.

Cynhelir y gymanfa nos Fercher, 16 Awst, a nos Iau, 17 Awst, eleni. Bydd y gwasanaethau fel a ganlyn:

**Nos Fercher am 6.30 y.h.**
Y Parchedig Carol Roberts (Eglwys yng Nghymru)
Y Parchedig Huw Dylan Jones (B)

**Nos Iau am 6.30 y.h.**
Y Parchedig Carwyn Siddall (A)
Y Parchedig Ifor ap Gwilym (EBC)

Estynnir croeso cynnes i bawb. Edrychir ymlaen at gymanfa fendithiol eleni eto.

Er yn hen ei hoedran hi
Nid yw hon yn dihoeni

meddai'r diweddar Barchedig Roger Jones.

Ceisiwn atal y dihoeni. Bydd y gefnogaeth i'r gymanfa eleni yn penderfynu ar ei dyfodol!

*Doris Jones*
*Hebron, Llŷn*

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 29 Beth am Lot?

### Darllen: Genesis 19:1–38

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t.120)

Cyn mynd i'r afael â'r digwyddiadau sy'n cael eu croniclo yn y bennod hon, rwyf am geisio deall Lot, a hynny yng ngoleuni'r hyn y mae Pedr yn ei adrodd amdano. Yn ei ail lythyr, dywed Pedr: 'Gwaredodd Lot, gŵr cyfiawn oedd yn cael ei drallodi gan fywyd anllad rhai afreolus; oherwydd wrth i'r gŵr cyfiawn hwn fyw yn eu plith, yr oedd gweld a chlywed eu gweithredoedd aflywodraethus yn artaith feunyddiol i'w enaid cyfiawn' (2 Pedr 2:7–8). I ba raddau, tybed, y byddech chi, o ddarllen pennod 19 o Genesis yn barod i ddweud am Lot ei fod yn 'ŵr cyfiawn oedd yn cael ei drallodi ...' a bod bywyd pobl Sodom yn 'artaith feunyddiol i'w enaid cyfiawn'? Yn ei esboniad ar y bennod hon mae Derek Kidner yn cyfeirio at Lot fel y 'gŵr cyfiawn heb ysbryd pererin'.

Tebyg fod angen atgoffa ein hunain o dermau yn y Beibl, yn arbennig felly'r defnydd o'r gair 'cyfiawn'. Mae'n cael ei ddefnyddio yn yr ystyr foesol, hynny yw, mae rhywun yn byw yn gyfiawn yn foesol, a hefyd mewn termau 'cyfreithiol', yn benodol cyhoeddiad Duw mewn perthynas â'n statws o'i flaen. Duw cyfiawn sy'n cyfiawnhau'r annuwiol yw Duw'r Beibl, Duw a Thad yr Arglwydd Iesu Grist. Nid yn unig y byddaf yn cael anhawster â'r disgrifiadau o Abraham fel gŵr cyfiawn, ond drwy'r Beibl down wyneb yn wyneb â'r paradocs rhwng yr hyn y mae Duw yn medru ei gyhoeddi amdanom drwy ras a thrwy waith Iesu drosom a'r hyn yr ydym yn ei wybod amdanom ein hunain ac am eraill.

Un o ymadroddion mwyaf cyfarwydd y diweddar Tim Keller, gweinidog Presbyteraidd Reedemer yn Efrog Newydd, oedd: 'Rydych yn fwy pechadurus nag y medrwch fyth ei ddychmygu, ond rydych wedi eich caru â chariad mwy nag y medrwch fyth ei ddychmygu'. Yng ngeiriau Paul: 'O ddyfnder cyfoeth Duw, a'i ddoethineb a'i wybodaeth! Mor anchwiliadwy ei farnedigaethau, mor anolrheiniadwy ei ffyrdd!' (Rhufeiniaid 11:33) Yng nghyswllt Lot, a ninnau yr un modd, nid oedd ei ofid am Sodom yn ei wneud yn gyfiawn, ond yn hytrach yn ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi credu Duw, ac fel yn achos ei ewythr Abraham: 'Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo' (Genesis 15:6; Rhufeiniaid 4:3; Galatiaid 3:6). Ein hunig obaith fel pobl yw'r cyfiawnder sydd inni yn yr Efengyl, yn hytrach nag unrhyw gyfiawnder ynom!

Ond mae pwy ydym yng ngolwg Duw i fod i'w ddangos ei hun yn yr hyn a wnawn. Er bod yna ambell awgrym fod Lot yn ceisio gwneud hyn, nid y lleiaf o'r awgrymiadau hyn yw'r ffordd y mae Pedr yn adrodd amdano. Eto, fe'i cawn yn un, fel ninnau yn aml, sy'n credu, ond yn gwrthod talu pris hynny yn ein bywyd o ddydd i ddydd. Y trasiedi mwyaf am fy anallu i, fel Lot, i beidio 'â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef' (Rhufeiniaid 12:2) yw'r canlyniadau sy'n perthyn i gyfaddawd. Mae'r canlyniadau hyn nid yn unig yn rhai personol, ond yn effeithio ymhell y tu hwnt i fywyd personol.

Symudodd Lot i Sodom i fwynhau'r 'bywyd da'. Roedd wedi llwyddo'n ariannol ac yn berchen tŷ mewn dinas lwyddiannus oedd, yn ôl Eseciel 16:49, 'hi a'i merched yn falch, yn gorfwyta, ac mewn esmwythyd diofal; ond ni roesant gymorth i'r tlawd anghenus'. Ar sail cyfeiriad at y ffaith ei fod yn eistedd ym mhorth y ddinas (19:1), mae'n debyg ei fod yn un o gynghorwyr neu henuriaid y ddinas, ond ei ddiwedd yw colli ei wraig, a mynd i fyw mewn ogof yng nghwmni ei ferched. Gwnaeth y rhain ef yn feddw, ac yn ei feddw-dod mae'n cyflawni llosgach â hwy, er mwyn iddynt gael plant. Roedd teuluoedd y plant hyn am beri gofid pellach yn hanes y genedl, fel y digwyddiad a ysgogwyd gan feibion Moab yn Numeri 25.

Does ryfedd fod Ioan am ein rhybuddio: 'Peidiwch â charu'r byd na'r pethau sydd yn y byd. Os yw rhywun yn caru'r byd, nid yw cariad y Tad ynddo, oherwydd y cwbl sydd yn y byd — trachwant y cnawd, a thrachwant y llygaid, a balchder mewn meddiannau — nid o'r Tad y mae, ond o'r byd' (1 Ioan 2:15–16). Er nad yw'r Beibl yn dweud bod ceisio cysur, arian, ayyb, yn bechod ynddo'i hunan, eto mae Iesu yn ein hatgoffa i sicrhau ble mae'r flaenoriaeth: 'Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon' (Luc 12:34). Pan fyddwn yn byw gyda'r un dyheadau â'r byd, yn llac ein moesau, yn ystyried ein safle yn fwy na'n teulu, a heb gael ein parchu gan y byd oherwydd ein credo, os nad ydym yn siŵr a ydym yn barod i ildio'r byd neu am gadw rhyw ychydig bach o bechod yn ein bywyd, medrwn fod yn sicr ein bod ar lwybr anniogel. Fel y cwch yn y dŵr, mae'r Cristion yn y byd; ond pan mae'r dŵr yn y cwch, mae yna berygl real y bydd yn suddo, a chanlyniadau hynny i ninnau ac i eraill.

Wedi dweud hyn i gyd, diolch fod Duw yn fwy trugarog tuag at ei blant nag y mae'r plant at ei gilydd yn aml iawn. Edrychwch ar adnod 29: 'Felly pan oedd Duw'n dinistrio dinasoedd y gwastadedd, yr oedd wedi cofio am Abraham, a phan oedd yn dinistrio'r dinasoedd y bu Lot yn trigo ynddynt, gyrrodd Lot allan o ganol y dinistr.'

1. Trafodwch ystyr cyfiawnder Duw, ein hanghyfiawnder ni, a chyfiawnhad, drwy ystyried y pennill hwn gan James Hughes yn edrych ar 'deml yr Arglwydd':

   Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddisglair iawn,<br>
   a'r gyfraith bur, bob iod ohoni'n llawn;<br>
   Ond, i bechadur, melys yw y sain<br>
   fod trugareddfa hefyd rhwng y rhain.

2. Sut mae adnabod arwyddion fod 'y dŵr yn dod i mewn i'r cwch' yn ein bywydau personol?

3. I ba raddau y byddwn yn ceisio bod yn fwy parod i faddau i Gristnogion na'u condemnio? Beth sy'n ein cynorthwyo i wneud hynny?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 25 Mehefin am 7.15yh – rhaglen 45 munud**

Mae'r rhaglen yn dathlu'r cwlwm Celtaidd wrth i Ryland fynd ar grwydr i Gernyw. Cawn glywed gan rai o'r brodorion sy'n addoli drwy'r iaith Gernyweg, a mwynhau perfformiad newydd ac unigryw o un o hoff emynau Cymru gan y gantores Suzie Mac.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 25 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**

Teulu: 3 – Euros Rhys yn cyflwyno'r drydedd raglen mewn cyfres fer am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 25 Mehefin, am 12yp**

Oedfa dan ofal Hedd Ladd Lewis, Boncath

# O Gefn Gwlad

## Y Cennad, nid y Genhadaeth

Er pan gyhoeddwyd y ffigyrau am stad Cristnogaeth yng Nghymru a'r niferoedd sy'n mynychu lle o addoliad ar y Sul, rwyf wedi bod yn pendroni o dro i dro am y rhesymau pam y digwyddodd hyn. O dro i dro, dwi'n dweud, nid o hyd, neu fe fyddwn wedi mynd yn benwan!

Digwyddodd ddiwethaf pan oeddwn yn gwrando ar yr artist Gareth Owen yng Nghanolfan Cantref, y Bala, yn ddiweddar, yn esbonio'i ymateb mewn celf i bryddest radio Kitchener Davies, *Sŵn y gwynt sy'n chwythu.* Mi gofiais ddisgrifiad y bardd ohono'i hun yn dychwelyd o angladd ei fam:

> Wyt ti'n cofio dod 'nôl yn nhrap Tre-wern
> o angladd mam? Ti'n cael bod ar y sêt flaen gydag Ifan
> a phawb yn tosturio wrthyt, – yn arwr bach, balch.

Mi gofiais hefyd am rieni Gareth – Ifor Owen a'i briod, Winnie. Roedd y tad yn brifathro yng Ngwyddelwern pan fu fy mam innau farw, nid yn chwech oed fel y bardd ond yn un ar bymtheg. Ond colli mam yw colli mam. Nhw eu dau yn unig fynegodd eu cydymdeimlad â mi. Roedden ni'n dri o blant, ond fy nhad gafodd y sylw a'r geiriau cysur i gyd. Dros ddeng mlynedd a thrigain yn ddiweddarach, nid chwilio am dosturi hwyr yr wyf, ond mynegi ffaith, a gofyn pam? Ac mi wn i'r ateb.

Gweinidog oedd fy nhad, Gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngwyddelwern. Tase fo'n ffarmwr, yn ddyn ffordd neu'n chwarelwr, mi fasen ni'r plant wedi cael cymaint o sylw â fo achos nid difeddwl bobl yr ardal bryd hynny. Na, y fo oedd y Gweinidog, dyna'r rheswm, a doedd gweinidogion yn y cyfnod hwnnw fawr is na'r angylion mewn gogoniant.



Llun: Josh Applegate - Unsplash

Mi gofiaf falchder y blaenoriaid sawl tro wrth gyhoeddi pwy fyddai'n pregethu y Sul canlynol: 'Proffesor David Phillips o Goleg y Bala' yn un, gyda'r pwyslais ar y Proffesor, oedd, gyda llaw, y mwya dirodres o ddynion. Gan eraill yr oedd y rhodres! Gallwn fynd ymlaen i sôn am falchder cyhoeddi'r Parchedig Ddoctor hwn a hwn i'r pwlpud. Ac os mai Cenhadwr o Fryniau Casia oedd y cennad, câi ei gyflwyno fel pe bai'n frenin, ac fe edrychem ni, aelodau'r gynulleidfa, arno fel tase coron ar ei ben!

Bryd hynny, yn fy ieuenctid, roedd gweinidogion ym mhobman megis duwiau, yn ennyn parch ac edmygedd, addoliad bron. Clywais adrodd am Philip Jones, Porth-cawl, yn pregethu yn rhywle, ac ugeiniau o bobl y tu allan i'r capel yn aros amdano. A phan ddaeth, y dyrfa'n gwahanu megis y Môr Coch i greu llwybr iddo i rodio'n urddasol tua drws y capel. A'r llu yn moesymgrymu iddo fel tase fo'n Grist Sul y Palmwydd. Mi gofiaf innau, ar fy ngwyliau yn Llŷn, sefyll gyda chriw mawr o ieuenctid ar fin nos i aros dyfodiad Tom Nefyn i gyfarfod hwyr yng Nghapel Tudweiliog un Awst pell yn ôl.

Ie'r Cennad yn arwr a'i genadwri yn aml yn adloniant, nid yn genhadaeth. A falle bod y pry yn y pren eisoes cyn i wrogaeth y 'saint' roi gweinidogion ar bedestal. Ai yn y Saesneg y defnyddiwyd y gair 'Reverend' gynta, tybed? Gair sy'n dod o'r Lladin *reverendus* gyda'i ystyr: 'yn haeddu parch'? Wn i ddim ac nid yw o bwys chwaith. Yr hyn sy'n bwysig yw i weinidogion ddod yn Barchedig a rhai uwch eu stad yn yr eglwys yn Wir Barchedig. Mae'n bosib i sawl gweinidog ddod i ddisgwyl yr wrogaeth hon, ond ar y cyfan ni, addolwyr, fu'n euog o'u clodfori.

O leia gallwn fel anghydffurfwyr ddatgan mai clodfori personau wnaethon ni, ac nid uchel swyddi fel y gwnaeth yr Eglwys Wladol a'r Eglwys Babyddol. A gallem ddannod iddynt hwy hefyd eu hoffter o eiconau a delwau sy'n ymylu, os nad gwaeth, yn aml ar eilunaddoliaeth. Ond ni thâl ymffrostio!

A dychwelyd at y broses o barchedigo ein gweinidogion yn y gorffennol, a gollwyd o wneud hyn y genhadaeth, yr efengyl, gyda'r negesydd yn bwysicach na'i neges? A yw hyn yn rhannol gyfrifol am y dirywiad heddiw? Ni allaf ond dyfalu, ond fe roes i mi, yn anffodus falle, lwybr i'r meddwl droedio ar hyd-ddo, yn hytrach na llawn wrando ar Gareth Owen yn esbonio'i ymateb i gerdd Kitchener Davies un noson waith yn y Bala.

*Elfyn Pritchard*

*Gol. Ydych chi'n cytuno gyda cholofnydd 'O gefn gwlad'? Gadewch i ni wybod eich barn!*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Yr holl genhedloedd

**Emyn 245 'Yr Iesu a deyrnasa'n grwn'**

**Darllen – Salm 86:1–10, 16–17**

### Angen

Dacw nhw, y rhai 'tlawd ac anghenus'. A dacw rywrai sy'n dioddef mewn perthynas fradwrus; dyma bobl sy'n chwilio am y Duw 'teyrngar'. A dacw rai sy'n gweiddi am 'drugaredd' gan eu bod yn ymwybodol o gaethiwed eu hamgylchiadau, sy'n wylo am eu methiannau, ac sy'n gwybod mai dim ond trugaredd Duw all adfer eu hamgylchiadau. Dacw rai sydd wedi eu llethu gan ofid, sy'n gweddïo am 'lawenydd'. A gerllaw iddynt gwelwn rai sy'n ymwybodol mai eu hangen dyfnaf yw 'maddeuant' a thrugaredd. Wrth i'r Salmydd weddïo fel hyn, mae'n cydnabod bod yr holl blethiad o dristwch, iselder, tlodi ysbrydol, ynghyd â'r angen am faddeuant, oll yn gwlwm cymhleth yn ei galon ei hun. Ef, nid arall, sydd angen trugaredd a phrofi llawenydd.

### Gobaith

Wrth iddo weddïo, mae'n syrthio gerbron yr Hwn y gall ymddiried ynddo, a hynny ar waethaf y ffaith iddo 'weiddi ar hyd y dydd' a theimlo fel pe na bai ei weddïau'n cael eu clywed. Fe ŵyr mai o 'drugaredd' a 'maddeuant' Duw y daw llawenydd, yr urddas sy'n dyrchafu'r enaid a ddarostyngwyd gan amgylchiadau.

Sail ei obaith yw 'trugaredd *i bawb* sy'n galw arnat'. Nid yw'r drugaredd mor gyffredinol, eang, fel nad yw'n ystyrlon i bob un ohonom yn *bersonol.* Ond nid yw mor gyfyng *bersonol*, mor unigolyddol, fel nad yw'n gwahodd yr holl fyd, 'i *bawb*' sy'n galw arno gael ei dderbyn.

### Cyflawnder gobaith

Mor gyflawn yw'r drugaredd yn Iesu Grist. Mor ogoneddus yw'r hanes am gyfamod sy'n ymestyn o Eden i'r nef newydd a'r ddaear newydd, lle mae cyfiawnder yn cartrefu. Mor dragwyddol bellgyrhaeddol yw ei addewid y byddai'r holl fyd yn cael ei fendithio drwy Iesu Grist, 'had Abraham'. Yn yr amser priodol cyflawnwyd yr addewidion diogel drwy ymgnawdoliad Iesu Grist, Mab Duw. Drwy ei ddysgeidiaeth, ei goncwest ar y groes dros angau a'r bedd, ac yna drwy ei atgyfodiad, cyhoeddwyd cyflawnder y fuddugoliaeth drwy atgyfodiad Iesu Grist. Mor rhyfeddol yw disgwyliad ei bobl am gael gweld yr holl addewidion sy'n weddill yn cael eu cyflawni.

Ac yn y rhyfeddod hwn, mewn addoliad a mawl, wrth dystiolaethu a chyhoeddi'r newyddion da, fe ddown oll i'w foliannu. Bydd, fe 'fydd yr holl genhedloedd a wnaethost yn dod ac yn ymgrymu o'th flaen, O Arglwydd, ac yn anrhydeddu dy enw'.

### Gweddi

Geidwad hollalluog, mor rhyfeddol yw dy ffyrdd. Mor ogoneddus yw cyrhaeddiad dy ras. Arglwydd, cyffeswn nad yw dy feddyliau di fel ein meddyliau ni, ac na allwn gloriannu, na mesur, na phwyso doethineb dy ffyrdd yn ôl ein mesuriadau ni. Arglwydd, gwna ni'n ddoeth i glywed dy air, i adnabod Iesu, i brofi arweiniad dy Ysbryd. Arglwydd, tyrd â'r holl fyd i'th adnabod. Deled dy deyrnas, fel yn y nef, felly yn ei helaethrwydd ar y ddaear hefyd. Amen.

**Emyn 264 'Helaetha derfynau dy deyrnas'**

**Darllen – Genesis 21:8–21**

Yn ôl traddodiad Islamaidd, os daeth yr Iddewon drwy linach Isaac, yna Ismael oedd 'tad' Islam. Mor bellgyrhaeddol yw effeithiau ein penderfyniadau!

### Penderfyniad creulon

Nid yw Abraham na Sara yn dod allan o'r stori yn ddilychwin wrth iddynt gytuno i anfon Hagar a'i mab, Ismael, i'r anialdir i drengi. Ni all pryder neu eiddigedd Sara esgusodi'r creulondeb a weithredwyd ar berson oedd heb unrhyw hawliau a heb unrhyw amddiffyn.

### Dienw

Ni fynnai Sara i'r 'gaethferch a'i mab' dienw fod yn fygythiad i etifeddiaeth ei mab Isaac.

Galwch nhw wrth enw arall – 'ffoaduriaid', 'mewnfudwyr anghyfreithlon', 'trosedd-wyr'. Cymaint rhwyddach yw eu hanwybyddu neu droi cefn arnynt, pan nad oes enw ganddynt!

### Canlyniadau trist

Ar draws y byd, oherwydd rhyfel, neu newyn, neu effeithiau newid hinsawdd, neu drychinebau naturiol, fe fydd yna famau dienw, sydd fel Hagar mewn 'anialwch' o angen. Mamau ydynt fydd wedi cyrraedd pen draw eu hadnoddau. Mamau fydd yn gosod eu plant i lawr ac yn pellhau oddi wrth y rhai bach 'gan ddweud, "Ni allaf edrych ar y bachgen yn marw."' (21:16)

Rhodded Duw i ni empathi a thosturi i ddefnyddio ein hadnoddau i wneud beth a fedrwn i ateb cri'r cenhedloedd!

### Gobaith annisgwyl

Er hyn, a heb esgusodi Sara nac Abraham am eiliad, yn achos Hagar ac Ismael, mewn modd dirgel a rhyfeddol, ynghanol drygioni'r cefnu a'r gyrru ymaith, daeth gair yr Arglwydd drachefn at Hagar. Roedd Hagar wedi ffoi oddi wrth Sara unwaith o'r blaen. Roedd eisoes wedi cyfarfod ag El-roi – y 'Duw sy'n gweld'– a'i adnabod fel Ismael – y 'Duw sy'n clywed' (Genesis 16:11–12). Yn awr, pan oedd Hagar ar fin anobeithio'n llwyr, clywodd yr eildro addewid yr angel am luosogrwydd ei disgynyddion trwy Ismael (Genesis 16:10) ac y byddai Duw yn ei wneud 'yn genedl fawr' (21:18).

Er nad o linach Ismael y deuai'r Gwaredwr, nid oedd am hynny yn ddibwys yng ngolwg yr Arglwydd chwaith: 'Bu Duw gyda'r plentyn' (adn. 20).

### Cyflawni addewid drwy Ismael

Ar waethaf ei ymddygiad, ni chefnodd yr Arglwydd ar ei air na'r addewid a wnaed i Abraham: 'Edrych tua'r nefoedd, a rhifa'r sêr os gelli ... Felly y bydd dy ddisgynyddion' (Genesis 15:6). Addawodd drachefn y 'gwnaf fab y gaethferch hefyd yn genedl, am ei fod yn blentyn i ti' (21:13).

### Cyflawni addewid drwy Isaac

Er hyn, 'trwy Isaac y cedwir dy linach' (21:14). A thrwy ddisgynyddion Isaac y deuai Iesu Grist, Mab Dafydd, Mab Abraham' yn waredwr y byd (Mathew 1:1).

'Nid oedd ethol Israel,' yn ôl Christopher Wright, 'yn golygu gwrthod cenhedloedd eraill ond roedd [yn alwad] er mwyn yr holl genhedloedd. Y mae ehangder byd-eang amcanion Duw, er hynny, yn cofleidio'n benodol y dull y mae Duw yn dewis gweithredu drwyddo, ac yn thema sy'n her ddiwinyddol barhaus'(C. J. H. Wright).

### Paradocs

Dyma baradocs rhyfeddol galwad Abraham. Do, fe dderbyniodd Abraham *ei hun* alwad ynghyd ag addewidion neilltuol. Yr un pryd, cafodd Abraham ei alw er mwyn i 'holl dylwythau'r ddaear' gael eu bendithio (12:3).

Ni phallodd diddordeb yr hollalluog yn holl dylwythau'r ddaear, na'i holl lwythau, na'i holl ieithoedd. A phan gyflawnir holl amcanion grasol Duw, bydd holl lwythau'r ddaear yn gogoneddu'r 'oen gadd ei ladd' gerbron ei orsedd. (Datguddiad 7:14 ymlaen)

### Gweddi

Arglwydd, dyhëwn am gael gweld 'y dydd yn dod, / bydd pob cyfandir is y rhod / yn eiddo Iesu mawr'. Amen.

**Emyn 257 'Rwy'n gweld o bell'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru